PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

DYDD MERCHER, 8 MAWRTH 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Boyle(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Dilwar Ali, De'Ath, Hyde, Robson a/ac Wild |

31 : AELODAETH Y PWYLLGOR

Ar 26 Ionawr 2016, cofnod rhif 135, cymeradwywyd enwebiad y Cynghorydd Joe Boyle i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn lle'r Cynghorydd Elizabeth Clark; a phenodwyd y Cynghorydd Boyle yn Gadeirydd y Pwyllgor am weddill y flwyddyn drefol hon.

Gwnaeth y Cadeirydd, y Cynghorydd Boyle, ddiolch yn ffurfiol i'r Cynghorydd Clark am ei chyfraniad at waith y Pwyllgor a'r ystyriaeth effeithiol o faterion oedd yn effeithio'n uniongyrchol ar Gynghorwyr wrth eu gwaith.

32 : YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Chaundy, Goddard a Murphy.

33 : DATGAN BUDDIANNAU

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau am eu cyfrifoldeb dan Ran III Cod Ymddygiad yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant yn gyffredinol ac i lenwi ffurflenni buddiant personol ar ddechrau'r cyfarfod ac yna, cyn dechrau'r drafodaeth ar yr eitem dan sylw, nodi a yw'n fuddiant personol neu ragfarnus. Os mai buddiant rhagfarnus yw e, gofynnir i Aelodau adael y cyfarfod ac os mai buddiant personol yw e gwahoddir i Aelodau aros, siarad a phleidleisio.

34 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2016 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

35 : AROLWG AELODAU YN GADAEL 2017

Cafodd y Pwyllgor wybod bod 46 o ymatebion wedi'u derbyn i'r Arolwg Aelodau yn Gadael a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2017 gyda phawb oedd wedi bod yn gwasanaethu fel Cynghorwyr ers mis Mai 2012. Roedd yr arolwg wedi trafod y meysydd canlynol sydd yng nghylch gwaith y Pwyllgor hwn: -

- Cymorth i Aelodau Etholedig
- Gwaith achos Aelodau; gohebiaeth a'r Ymholiadau i Aelodau
- Cyfnod cyflwyno a hyfforddiant datblygu a sesiynau briffio
- Balans rhwng gwaith a bywyd
- Cyfathrebu

Roedd yr ymatebion cyffredinol i'r cwestiynau yn bositif, ac roedd Atodiad A'n rhoi dadansoddiad o'r adborth testun rhydd oedd yn rhoi cyfle i'r Aelodau nodi unrhyw wybodaeth ychwanegol.

Trafododd y Pwyllgor y prif themâu a'r canlyniadau, megis: -

- Cyfnod Cyflwyno Aelodau, cyfleoedd dysgu a datblygu;
- Y wybodaeth sydd ar gael iddyn nhw ar swydd ac ymrwymiadau Cynghorwyr;
- Sut all y Cyngor hyrwyddo amrywiaeth ymysg Aelodau Etholedig
- Gwasanaethau cefnogi aelodau gan gynnwys cymorth â gwaith achos; ymholiadau a rheoli amser;
- Tâl Aelodau Etholedig a gwaith y Panel Annibynnol
- Balans rhwng bywyd a gwaith gan gynnwys dechrau a gorffen; amser cyfarfodydd; yr angen i rai aelodau fod â chyflogaeth arall; materion mewn perthynas ag ad-dalu costau gofal;
- Llesiant Cynghorwyr;
- Materion cod ymddygiad.

Gwnaeth Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol drafod alinio cymorth i Gynghorwyr yn y Gwasanaethau Aelodau gyda throsglwyddiad gwaith y System Ymholiadau Aelodau i Wasanaethau Aelodau gan C2C ym mis Mai 2017, a phenodi tîm parhaol o Swyddog/ion Cymorth Aelodau yn rhan o'r pontio hwn a chymorth i Gynghorwyr newydd.

Nododd y Cyfarwyddwr bod y Gwasanaeth Cwnsela Carefirst bellach ar gael i bob Cynghorydd i gefnogi llesiant yr Aelodau Etholedig.

Roedd y Pwyllgor yn awyddus i fonitro'r prif themâu a nodir yn yr arolwg, a chafodd ei argymell y dylid cynnal Arolwg ar ddiwedd Hydref 2017 - byddai hyn yn cynnig sail data tueddiad a chynllun gweithredu i'w ddefnyddio yn y weinyddiaeth newydd.

PENDERFYNWYD – Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r cynnig i gynnal yr Arolwg Aelodau yn Gadael yn ystod Hydref 2017 gan ddefnyddio'r cwestiynau i gael gwybodaeth gymharol; gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd yn Atodiad A yr adroddiad.

36 : SEFYDLU AELODAU 2017

Derbyniodd y Pwyllgor y Cynllun Sefydlu Aelodau gan nodi hyfforddiant Hanfodol i Aelodau newydd ac aelodau sy'n dychwelyd a sesiynau briffio a sesiynau codi ymwybyddiaeth wedi'u trefnu ar gyfer 6 mis cyntaf y rhaglen.

Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r rhaglen, ac yn benodol y Digwyddiad Sefydlu'r Farchnad ac hefyd yn cefnogi'r sesiynau hynny a nodwyd yn hanfodol. Cafodd y Pwyllgor wybod y byddai Pwyllgor y Cyfansoddiad yn argymell i'r Cyngor Llawn y dylid cryfhau ymrwymiad Cynghorwyr i ymgymryd â hyfforddiant hanfodol yn Ymrwymiad Caerdydd, gan gynnwys yng nghylch gorchwyl neu ym mhob pwyllgor lled-farnwrol yr angen i Aelodau Pwyllgor fod wedi cwblhau hyfforddiant hanfodol cyn y gallant fod yn rhan o'r Pwyllgorau hynny.

Nodwyd y byddai eDdysgu hefyd yn cael eu hyrwyddo fel dull dysgu amgen. Mae gan y lolfa eDdysgu fodiwlau i gefnogi Llywodraethwyr Ysgol. Nodwyd bod cynllun hyfforddi Aelodau yn Llywodraethwyr yn hanfodol.

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r Rhaglen Sefydlu drafft terfynol yn amodol ar unrhyw fân ddiweddariadau eraill fel sy'n briodol.

## 37 : PAPUR GWYN - DIWYGIO LLYWODRAETH LEOL: YN WYDN AC YN NEWYDD

Cafodd y Pwyllgor gyfle i fwydo i mewn i'r broses ymgynghori ar ddogfen Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar gynigion i Ddiwygio Llywodraeth Leol: Yn Wydn ac Yn Newydd, a gyhoeddwyd ar 31 Ionawr 2017 cyn belled ag yr oedd y materion yn berthnasol i'r Pwyllgor hwn.

Gwnaeth y Pwyllgor ystyried cynigion mewn perthynas â:

- Gwe-ddarlledu cyfarfodydd y Cyngor;
- Dyletswyddau newydd i Arweinwyr grwpiau gwleidyddol i sicrhau safonau ymddygiad uchel ymysg eu Haelodau;
- Cymorthfeydd Cynghorwyr

Awgrymodd yr Aelodau fod angen mwy o eglurder ar rai o'r cynigion yn benodol mewn perthynas â Chynghorwyr a'u cyfarfodydd Cymorthfeydd Ward.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn:

1. nodi'r darpariaethau drafft yn y papur gwyn Diwygio Llywodraeth Leol:
2. Yn Wydn ac Yn Newydd;
3. cytuno y dylai'r Cadeirydd ar ran y Pwyllgor ymateb i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn.

*Cyn dod â'r cyfarfod i ben, diolchodd y Cadeirydd i Aelodau am eu cyfraniadau sylweddol i waith y Pwyllgor hwn ac i'r rheiny nad oeddent yn sefyll yr Etholiad Lleol ym mis Mai, gan ddymuno'r gorau iddynt am y dyfodol.*